Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Brynteg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 22 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mai 2018

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-997-9



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21

4. Beth nesaf? ........ 24

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 25

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 26

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 27

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg yn 34 Heol yr Orsaf, Brynaman Uchaf, Rhydaman SA18 1SF, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 22 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Brynteg yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwnaethom nodi fod y practis yn lân ac yn daclus, a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd proffesiynol, caredig a chwrtais
- Roedd gan y practis amrediad da o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r practis gadw cofnod o pryd y maen nhw'n monitro cyffuriau brys a nodi dyddiadau dod i ben offer
- Dylai'r holl staff clinigol ac anghlinigol dderbyn hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'w swyddogaethau
- Mae angen i'r practis gyflwyno rhaglen o archwiliadau at ddibenion nodi meysydd i'w gwella.
- Rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Brynteg yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Rhydaman . Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys tri deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Nododd y cleifion hynny a gyflwynodd sylwadau eu bod yn cael eu trin â pharch pan oeddent yn ymweld â'r practis, a gwelsom fod y staff yn gwrtais a phroffesiynol.

Mae angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer cofnodi adborth anffurfiol/ar lafar gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 22 o holiaduron. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Nid oes angen unrhyw welliannau"*
>
> *"Gwybodaeth am gost"*
>
> *"Mae'n iawn fel ag y mae"*

### Cadw'n iach

Gwelsom amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y fan aros. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni ynghylch triniaethau a chyngor ataliol. Yn ogystal, roedd gan y practis arddangosfa fawr yn hysbysu cleifion am ganser y geg.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

### Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi'i drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion yn gwrtais ac yn foesgar.

Os oedd angen cynnal sgwrs breifat gyda chlaf, dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio ystafell driniaeth wag neu'r ystafell staff. Roedd modd gwneud galwadau ffôn o'r ystafell staff neu'r ystafell belydr-X hefyd, a oedd yn rhoi preifatrwydd i'r claf.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth (i'r graddau yr oeddent yn dymuno), a, phan fyddai angen triniaeth arnynt, byddai'r tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael iddynt.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, a dywedasant wrthym eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Er bod y rhestri prisiau wedi'u darparu yn nhaflen wybodaeth y practis, gwelsom y rhestr brisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG yn y fan aros, ond nid y costau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat. Rhaid i bractis sicrhau bod rhestri prisiau wedi'u harddangos, gan gynnwys rhestr o eitemau sylfaenol, a chyflwyno gwybodaeth glir am brisiau, ar gyfer gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat. Argymhellwn fod y practis yn arddangos rhestri prisiau o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

Roedd manylion y deintyddion a oedd yn ymarfer, oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng wedi'u harddangos yn ffenestr flaen y practis. Ailadroddwyd yr wybodaeth hon yn nhaflen y practis a oedd ar gael i gleifion.

Mae gan y practis wefan sy'n cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n ei ddarparu, ynghyd â rhestr brisiau a chyngor iechyd deintyddol. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol Y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol[1], argymhellwn fod y wefan yn cael ei diweddaru i gynnwys yr wybodaeth gywir o ran manylion y deintyddion hynny sy'n gweithio yn y practis hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn arddangos rhestri prisiau o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat.

Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan i gynnwys yr wybodaeth gywir am ei ddeintyddion preswyl.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn ystyried eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. Dywedodd wyth claf eu bod yn ystyried eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. O'r wyth claf hynny, dywedodd hanner ohonynt eu bod yn gallu siarad â'r staff yn Gymraeg os oeddent yn dymuno. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion ar yr holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn mewn modd cwrtais a moesgar.

## Gofal amserol

Dywedodd 15 o'r 22 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos ar ffenestr flaen y practis, ac yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd yr wybodaeth hon ar neges peiriant ateb y practis hefyd.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn hysbysu'r claf a oedd yn aros ar unwaith pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

---

[1] https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi ynghylch eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd y brif fynedfa, y dderbynfa, y fan aros a'r ystafelloedd triniaeth ar yr un lefel, a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Roedd cyfleusterau toiled ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear a oedd â mynediad da iddynt, a chanllawiau i sadio'r cleifion hynny a oedd eu hangen. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried gosod larwm yn y toiled.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn am y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwyno ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y polisi'n cyd-fynd â phroses gwyno'r GIG, "Gweithio i Wella"[2] pan fydd hynny'n berthnasol, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, yn cyd-fynd â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[3]. Roedd y polisi wedi'i arddangos yn y fan aros.

---

[2] "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[3] www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

Roedd y practis yn cadw ffolder a oedd yn cynnwys y cwynion a oedd wedi'u derbyn a'r canlyniadau ar gyfer yr arferion hynny roedd rheolwr y practis yn gyfrifol amdanynt. Roedd ychydig o'r wybodaeth yn anghyflawn. Argymhellwn fod y ffolder gwynion yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad.

Gwelsom fod gan y practis focs awgrymiadau yn y fan aros. Dywedwyd wrthym fod yr holl awgrymiadau a oedd yn dod i law'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gweld a ellid rhoi unrhyw rai ar waith. Gwnaethom bwyso ar y practis i ystyried rhoi adborth i gleifion ar yr awgrymiadau a gyflwynwyd.

Cawsom wybod nad oedd y practis yn cofnodi pryderon ar lafar. Argymhellir fod yr holl adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi er mwyn gallu nodi themâu sy'n codi dro ar ôl tro. Awgrymwn fod y practis yn cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth ar lafar.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu proses ar gyfer cofnodi pryderon cleifion, cofnodi'r gŵyn, y camau a gymerwyd, yr amserlenni a'r canlyniad.

Dylai'r practis ystyried rhoi proses ar waith ar gyfer cofnodi pryderon ac adborth ar lafar.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Gwnaethom sylwi bod cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus, ond roedd rhai arwyddion o ôl traul a oedd angen sylw.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac roedd tystiolaeth bod yr offer hwn yn cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd ac yn barhaus.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad, gan gadw at y safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant cleifion a oedd yn ymweld â'r practis a'r staff sy'n gweithio yn y practis. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn credu bod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu tyb hwy.

Roedd y tu allan i'r adeilad yn edrych fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân a'r offer a'r cyfarpar yn cael eu storio'n briodol ar y cyfan. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod dŵr a oedd wedi gollwng wedi difrodi rhan o wal un o'r ystafelloedd triniaeth, ac roedd plastr yn pilio oddi arni. Gwnaethom nodi fod hyn wedi'i amlygu mewn asesiad risg a gynhaliwyd fis yn ôl, ac argymhellwyd fod y wal hon yn cael ei thrwsio cyn gynted â phosibl. Roedd soffa ledr yn yr ystafell driniaeth hon hefyd, a chynghorir bod y ddeintyddfa'n datblygu gweithdrefn ddiheintio ar gyfer y dodrefn hyn. Roedd y mannau anghlinigol yn lân a thaclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol.

Gwnaethom nodi fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad, a nodwyd bod y rhain wedi'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) mewn ffordd ddiogel. Ar adeg yr arolygiad, roedd y clo ar y cynhwysydd gwastraff clinigol, a oedd yng nghefn y practis, wedi torri. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cynhwysydd newydd wedi'i archebu ac ar gyrraedd.

Roedd gan y practis lyfr ‘Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus’ (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, wedi'u harddangos.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau'r adegau y daw staff i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Roedd gan y practis bolisi ar gyfer 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH), taflenni data diogelwch perthnasol, a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau i gael gwared ar gynhyrchion hylendid benywaidd yn nhoiled y cleifion, ond nid yn nhoiled y staff. Gwelsom dystiolaeth bod bin hylendid benywaidd wedi'i archebu y llynedd. Er mwyn cadw at y rheoliadau cyfredol o ran y ddarpariaeth hon, argymhellwn y dylai'r practis ddarparu'r amwynderau angenrheidiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn y mannau clinigol

Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan yn nhoiled y staff.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[4]

Roedd offer sterileiddio'n cael gwiriadau cynnal a chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, a gwelsom dystiolaeth bod llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio'n cael eu cadw. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio. Darparodd yr holl staff clinigol dystiolaeth o hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau, ond gwnaethom nodi fod y rhain yn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd (Lloegr) 01-05. Argymhellwn fod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Cymru, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae'r canllaw hwn hefyd yn cynghori y dylai practisau adolygu canlyniadau eu harchwiliadau o leiaf unwaith y flwyddyn, neu pan fydd problem yn codi o ran dadheintio, er mwyn sicrhau bod arfer da'n cael ei gynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Cymru, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac argymhellir bod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno i Ddeoniaeth Cymru i roi sylwadau arnynt, yn unol ag arfer da.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod eu swyddogaethau pe bai argyfwng meddygol yn codi, argymhellwn fod polisi argyfyngau meddygol y practis yn cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi.

[4] Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cyflwyno canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Roedd yr holl staff, heblaw am reolwr y practis, wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Mae gan ddarparwyr gofal iechyd rwymedigaeth i ddarparu sgiliau dadebru pan fydd rhywun yn dioddef ataliad y galon, ac i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi a'u diweddaru'n rheolaidd at lefel o hyfedredd sy'n briodol i rôl ddisgwyliedig pob unigolyn[5]. Yr arfer gorau fyddai i staff anghlinigol feddu ar dystysgrifau cyfredol, a byddem yn cynghori bod trefniadau'n cael eu gwneud i reolwr y practis fynychu hyfforddiant priodol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym mai hi oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig, ond nid oedd ganddi dystysgrif gyfredol ac nid yw'n gweithio yn y practis; felly, nid oes unrhyw swyddog cymorth cyntaf ar y safle ambell i ddiwrnod. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

Gwelsom fod offer a chyffuriau brys yn cael eu storio'n briodol, a dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu gwirio yn unol â'r safonau a gyflwynir gan Gyngor Dadebru'r DU[6], ond nid oedd unrhyw restr wirio i gadarnhau hyn. Argymhellwn fod y practis yn cychwyn llyfr cofnodion i ddangos bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cyflawni.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiwygio ei bolisi argyfyngau meddygol er mwyn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi.

Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf a sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

---

[5] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/

[6] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Dylai'r practis gychwyn llyfr cofnodion i gadarnhau bod y cyffuriau a'r offer brys yn cael eu gwirio bob wythnos.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, ac roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Nid oedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar un o agweddau'r hyfforddiant neu'r ddwy agwedd arno, h.y. amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod staff clinigol ac anghlinigol sydd â mynediad at gleifion yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriant pelydr-X yn cael ei wasanaethu’n rheolaidd. Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[7] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[8].

Ni welsom dystiolaeth fod y cywasgydd yn cael ei wasanaethu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ddarparu dogfennaeth ar gyfer AGIC i gadarnhau fod y cywasgydd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad o radiograffau yn ystod 2017, ond nid yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Ddeoniaeth Cymru. Roedd y prif ddeintydd wedi cynnal archwiliad o gofnodion cleifion hefyd. Gwnaeth y practis hefyd gynnal archwiliad yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd 01-05 (Lloegr). Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd lluniau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[7] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[8] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Cawsom wybod fod y deintyddion yn cwrdd yn anffurfiol i drafod achosion sy'n berthnasol ar y pryd. Nid ydynt yn cyfarfod at ddibenion adolygu cymheiriaid. Argymhellwn fod cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng y deintyddion at y diben hwn. Awgrymir bod y rhain yn cynnwys deintyddion o rai o'r chwaer-bractisau, neu bob chwaer-bractis o fewn grŵp Brynteg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben cynnal adolygiadau gan gymheiriaid.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y practis yn cadw cofnodion papur a oedd yn cael eu storio mewn cabinetau ffeilio yn yr ystafell staff, y gellid mynd i mewn iddi drwy un o'r ystafelloedd triniaeth. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd gan bedwar o'r cabinetau ffeilio allweddi, ac argymhellwn fod pob un o'r rhain yn cael eu cadw dan glo ar bob adeg.

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data a pholisi rhyddid gwybodaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cabinetau ffeilio lle y caiff cofnodion cleifion eu storio'n cael eu cadw dan glo ar bob adeg.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Mewn rhai achosion, canfuom fod rhai pethau ar goll, megis y canlynol:

- Nid oedd dyddiad yn cael ei nodi ar siartiau
- Mae angen i’r radiograffau gael eu graddio gan y deintydd
- Nid oedd y rhesymau dros ail-alw cofnodion cleifion wedi'u cofnodi bob amser yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Argymhellwn fod y practis yn cynnal archwiliad llawn o gofnodion clinigol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am archwiliadau, cyngor a thriniaethau a ddarperir a gwybodaeth berthnasol am belydrau-X.

Rhaid i'r practis gofnodi'r rhesymau dros ail-alw ar gofnodion cleifion, yn unol â chanllawiau NICE.

Mae angen i'r practis gynnal archwiliad clinigol llawn o gofnodion ei gleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd gan y practis amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, ond rhaid iddynt sicrhau eu bod yn benodol i'r practis.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Brynteg, Brynaman yn un o bum practis (Caerfyrddin, Rhydaman, Dinbych-y-pysgod a Sgeti) yn grŵp Brynteg. Rheolwr y practis sy'n rheoli'r practis o ddydd i ddydd, ac mae hefyd yn gyfrifol am bractisau Caerfyrddin a Dinbych-y-pysgod. Ar ddiwrnod yr arolygiad, dywedodd un aelod o'r staff yr hoffai weld rheolwr y practis yn ymweld â'r practis yn amlach. Roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn drefnus, ac roedd amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y polisïau'n cael eu hadolygu gan reolwr y practis. Cynghorir bod yr holl staff yn llofnodi pob polisi er mwyn cadarnhau eu bod wedi ei ddarllen ac i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth. Roedd y polisïau'n gyffredinol ar gyfer Grŵp Deintyddol Brynteg, ac argymhellwn eu bod yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis lle y bo'n berthnasol:

Gwnaethom nodi fod rhaglen eang o asesiadau risg hefyd wedi'u cynnal o ran y practis a'r staff, gan gynnwys diogelwch tân, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, Cymorth Cyntaf a chodi a chario.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisïau'n benodol i'r practis lle y bo'n berthnasol.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom berthynas glos rhwng staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan yr holl staff gontractau gwaith, a gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau'r staff fod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith. Roedd rhaglen arfarnu staff hefyd ar gyfer nyrsys deintyddol a staff anghlinigol. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrediad o bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a chaiff cofnodion eu creu ar eu hôl. Argymhellwn fod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl staff ar ôl pob cyfarfod, a bod ffurflen yn cael ei llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen. Mae'r practis hefyd yn trefnu digwyddiadau "cinio a dysgu" i'r holl staff.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar holl aelodau'r staff clinigol, heblaw am un deintydd.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol ar waith. Mae'n ofyniad gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i dystysgrifau cofrestru gwreiddiol gael eu harddangos. Un deintydd yn unig sy'n darparu triniaeth ddeintyddol breifat, a gwelsom ei dystysgrif wedi'i harddangos yn glir.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.[9] Methodd y practis â darparu tystiolaeth o imiwnedd yn y cofnodion imiwneiddio ar gyfer un aelod o'r staff clinigol. Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hhepatitis B.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd sy'n darparu triniaeth ddeintyddol breifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

[9] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Argymhellwn fod y practis yn arddangos rhestri prisiau o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat. | 4.2 Gwybodaeth i gleifion | Arddangos ffioedd preifat. | Louise Anderson | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan i gynnwys yr wybodaeth gywir am ei ddeintyddion preswyl. | | Cysylltu â'r dylunydd gwe, gwefan yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd. | Louise Anderson | Mai 2018 |
| Dylai'r practis ddatblygu proses ar gyfer cofnodi | 6.3 Gwrando a | Ffeil gwynion newydd, gyda rhestr wirio | Louise Anderson | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| pryderon cleifion, cofnodi'r gŵyn, y camau a gymerwyd, yr amserlenni a'r canlyniad. | dysgu o adborth | ar gyfer cofnodi, y camau a gymerwyd, yr amserlenni a'r canlyniad. | | |
| Dylai'r practis ystyried rhoi proses ar waith ar gyfer cofnodi pryderon ac adborth ar lafar. | | Cael llyfr nodiadau yn y dderbynfa. | Louise Anderson | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o draul yn y mannau clinigol. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Ychydig bach o ddifrod glaw i'w lyfnu, ei drin a'i ail-baentio. | Louise Anderson | Cwblhawyd |
| Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan yn nhoiled y staff. | | Wedi'u harchebu – holi PHS ynghylch cynnydd. | Lowri Thomas | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Cymru, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac argymhellir bod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno i Ddeoniaeth Cymru i roi sylwadau arnynt, yn unol ag arferion da. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Fersiwn Lloegr wedi'i chwblhau yn lle un Cymru, mae gennym archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01 05 bellach. | Lowri Thomas | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis ddiwygio ei bolisi argyfyngau meddygol er mwyn cynnwys gwybodaeth am | 2.6 Rheoli | Polisi wedi'i ddiwygio | Lowri Thomas | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi. | meddyginiaethau | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf a sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg. | | Holl staff i gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. | Lowri Thomas | O fewn un mis |
| Dylai'r practis gychwyn llyfr cofnodion i gadarnhau bod y cyffuriau a'r offer brys yn cael eu gwirio bob wythnos. | | Llyfr cofnodion eisoes ar waith ar adeg yr arolygiad. | Lowri Thomas | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Holl staff i gwblhau hyfforddiant Lefel 3 ar amddiffyn plant. | Lowri Thomas | O fewn un mis |
| Rhaid i'r practis ddarparu dogfennaeth ar gyfer AGIC i gadarnhau bod y cywasgydd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Cywasgydd wedi'i wasanaethu ac adroddiad y peiriannydd wedi'i ddangos i'r arolygwyr, tystysgrif brawf i ddilyn gan DBG. | Lowri Thomas | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Bydd archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau. | Lowri Thomas | O fewn tri mis |
| Mae angen i'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben cynnal adolygiadau gan gymheiriaid. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Trefnu cyfarfodydd adolygu cymheiriaid. | Pob deintydd | O fewn un mis |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y cabinetau ffeilio lle y caiff cofnodion cleifion eu storio'n cael eu cadw dan glo ar bob adeg. | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu | Cael cabinetau ffeilio eraill yn lle'r rhai heb allweddi. | Louise Anderson | O fewn un mis |
| Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am archwiliadau, cyngor a thriniaethau a ddarperir a gwybodaeth berthnasol am belydr-X. | 3.5 Cadw cofnodion | Deintyddion i gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr. | Pob deintydd | Cwblhawyd ac yn parhau |
| Rhaid i'r practis gofnodi'r rhesymau dros alw cleifion yn ôl ar gofnodion cleifion, yn unol â chanllawiau NICE. | | Llwybrau NICE wedi'u defnyddio. | Pob deintydd | Cwblhawyd ac yn parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen i'r practis gynnal archwiliad clinigol llawn o gofnodion ei gleifion. | | | Yr holl staff | Yn parhau |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisïau'n benodol i'r practis lle y bo'n berthnasol. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae'r holl bolisïau'n benodol i'r practis | Louise Anderson | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd sy'n darparu triniaeth ddeintyddol breifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. | 7.1 Y gweithlu | Nid oedd y deintydd nad oedd wedi cael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn darparu deintyddiaeth breifat, ond rydym bellach wedi cwblhau gwiriad ar ei gyfer gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Louise Anderson | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B. | | Profion gwaed Hep B wedi'u casglu. | Louise Anderson | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Louise Anderson**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 8 Mai 2018**